



Powys

CRONFA BENSIWN

POWYS

PENSION FUND

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLAWN ar gyfer aelodau a buddiolwyr Cronfa Bensiwn Powys

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar gyfer aelodau a buddiolwyr (y cyfeirir atynt fel "**chi**") Cronfa Bensiwn Powys (y "**Gronfa**"). Fe'i paratowyd gan Gyngor Sir Powys (yr "**Awdurdod Gweinyddu**", neu "**ni**") yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn hefyd ar gael ar wefan y Gronfa drwy'r ddolen ganlynol:

www.powyspensionfund.org/ffurflenni_a_chyhoeddiadau/

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd neu bolisi prosesu teg arall y gallwn ei ddarparu ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio eich data. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disodli unrhyw hysbysiad preifatrwydd cyffredinol y gallwn fod wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac yn ategu unrhyw hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd eraill a gyhoeddwn sy'n benodol i weithgareddau casglu / prosesu data penodol.

Pam rydym ni'n darparu'r hysbysiad hwn i chi

Fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, rydym yn cadw gwybodaeth benodol amdanoch chi ac y gellir eich adnabod ohoni ("**data personol**") yr ydym yn ei defnyddio i weinyddu'r Gronfa ac i dalu buddion ohoni. Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth benodol i chi am y data personol sydd gennym amdanoch chi, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas ag ef a'r mesurau diogelu sydd ar waith i'w ddiogelu. Mae'r hysbysiad hwn wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth honno i chi.

Y darn technegol

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw data personol amdanoch chi, yn rhinwedd ei swydd fel rheolydd, er mwyn ymdrin yn briodol â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Mae hyn yn cynnwys yr angen i brosesu eich data i gysylltu â chi, i gyfrifo, sicrhau a thalu eich budd-daliadau, ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol ac at ddibenion cyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu budd-daliadau aelodau a buddiolwyr a sut y dylid buddsoddi'r arian hwnnw), ac i reoli rhwymedigaethau a gweinyddu'r Gronfa yn gyffredinol. Darperir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol isod.

Y sail gyfreithlon dros ein defnydd o'ch data personol fel arfer fydd bod angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, gan gynnwys, er enghraifft, ein rhwymedigaethau o dan reoliadau dangosfwrdd pensiynau. Pan nad yw'r sail gyfreithiol honno yn berthnasol, y sail gyfreithiol ar gyfer ein defnydd o'ch data personol fydd un neu fwy o'r canlynol:

- a) mae angen i ni brosesu eich data personol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol yn rhinwedd ein swydd fel corff cyhoeddus; a/neu
- b) mae angen i ni brosesu eich data personol er buddiannau cyfreithlon gweinyddu a rheoli'r Gronfa a'r rhwymedigaethau oddi tano, cyfrifo, sicrhau a thalu budd-daliadau a chyflawni ein rhwymedigaethau ac arfer unrhyw hawliau, dyletswyddau a disgresiwn sydd gan yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r Gronfa; a/neu
- c) oherwydd bod angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cytundebol i chi mewn perthynas â'r Gronfa (er enghraifft, o dan gytundeb y byddwch yn talu

cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'r Gronfa), neu i gymryd camau, ar eich cais, cyn ymrwymo i gontract.

Sylwer, pan fyddwn yn nodi bod ein prosesu o'ch data personol yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, neu i ni gymryd camau, ar eich cais, i ymrwymo i gontract cyflogaeth gyda chi o bosibl, neu i'w gyflawni, a'ch bod yn dewis peidio â darparu'r data personol perthnasol i ni, Efallai na fyddwn yn gallu ymrwymo neu barhau â'n contract gyda chi.

Pa ddata personol rydyn ni'n ei gadw, a sut rydyn ni'n ei gael

Gall y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu cadw ac yn eu prosesu amdanoch gynnwys:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Manylion nodi, gan gynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol, rhifau aelodaeth gweithwyr ac, a ydych wedi defnyddio dangosfwrdd pensiynau i gael gafael ar wybodaeth am eich pensiwn, "dynodwr pensiwn" (PEI), a ddefnyddir i gadarnhau cyfatebiaeth a nodi eich buddion penodol o dan y Gronfa at ddibenion arddangos gwybodaeth drwy ddangosfwrdd.
- Gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo ac asesu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau, er enghraifft, hyd gwasanaeth neu aelodaeth a gwybodaeth am gyflog.
- Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i gyfrifo neu dalu budd-daliadau, er enghraifft, manylion cyfrif banc a threth.
- Gwybodaeth am eich teulu, eich dibynyddion neu amgylchiadau personol, er enghraifft, statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu budd-daliadau sy'n daladwy ar ôl marwolaeth.
- Gwybodaeth am eich iechyd, er enghraifft, i asesu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau sy'n daladwy pan fydd salwch gennych, neu lle mae eich iechyd yn berthnasol i hawliad am fudd-daliadau yn dilyn marwolaeth aelod o'r Gronfa.
- Gwybodaeth am gollfarn droseddol os yw hyn wedi arwain atoch chi i fod mewn dyled ariannol i'ch cyflogwr neu'r Gronfa ac efallai y bydd y cyflogwr neu'r Gronfa yn cael ei ad-dalu o'ch budd-daliadau.
- Gwybodaeth am unrhyw aelodaeth flaenorol o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill ac awdurdodau eraill sy'n gweinyddu LGPS, gan gynnwys eich dyddiad gadael ac a yw'r cynllun/awdurdod blaenorol wedi asesu eich cymhwysedd i gael diogelu tanategol (gweler "Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth" isod).

Rydym yn cael rhywfaint o'r data personol hwn yn uniongyrchol gennych chi. Efallai y byddwn hefyd yn cael data (er enghraifft, gwybodaeth am gyflogau) gan eich cyflogwr presennol neu gyn-gyflogwr neu gwmnïau a'u olynodd mewn busnes, gan aelod o'r Gronfa (lle rydych neu gallech fod yn fuddiolwr o'r Gronfa o ganlyniad i aelodaeth y person hwnnw o'r Gronfa) ac o amrywiaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys cronfeydd data cyhoeddus (megis y Gofrestr Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau), dangosfwrdd pensiynau (pan fyddwch chi'n ei ddefnyddio i gael mynediad at eich gwybodaeth am bensiynau), ein cynghorwyr a'n cyrff llywodraethol neu reoleiddio, gan gynnwys y rhai yn y rhestr o sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw a nodir isod.

Pan fyddwn yn cael gwybodaeth am rai "categoriâu arbennig" o ddata arbennig o sensitif, megis gwybodaeth iechyd, mae diogeluau ychwanegol yn berthnasol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Dim ond gyda'ch caniatâd y byddwn yn prosesu eich data personol sy'n dod o fewn un o'r categorïau arbennig, oni bai y gallwn brosesu'r data hwn yn gyfreithlon am reswm arall a ganiateir gan y ddeddfwriaeth honno. Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, os nad ydych yn rhoi caniatâd, neu'n ei dynnu'n ôl wedyn, efallai na fydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gallu prosesu'r

wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau yn seiliedig arni, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch talu eich budd-daliadau.

Pan fyddwch wedi rhoi data personol i ni am unigolion eraill, megis aelodau o'r teulu, dibynyddion neu fuddiolwyr posibl o dan y Gronfa, gwnewch yn siŵr bod yr unigolion hynny'n ymwybodol o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad hwn.

Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddelio â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Gall hyn gynnwys prosesu eich data personol at bob un neu unrhyw un o'r dibenion canlynol:

- I gysylltu â chi.
- Asesu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau, cyfrifo a darparu budd-daliadau i chi (ac, os ydych yn aelod o'r Gronfa, i'ch buddiolwyr ar ôl eich marwolaeth).
- Nodi eich opsiynau budd posibl neu wirioneddol ac, lle bo hynny'n berthnasol, gweithredu'r opsiynau hynny.
- Caniatáu ffyrdd amgen o ddarparu eich budd-daliadau, er enghraifft, trwy ddefnyddio cynhyrchion yswiriant a throsglwyddiadau neu uno â threfniadau pensiwn eraill.
- Hwyluso eich mynediad i'ch gwybodaeth pensiynau drwy ddangosfwrdd pensiynau.
- At ddibenion modelu ystadegol ac ariannol a chyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu buddion aelodau a buddiolwyr a sut y dylid buddsoddi'r arian hwnnw).
- Asesu ac, os yw'n briodol, gweithredu cais a wnewch i drosglwyddo'ch budd-daliadau allan o'r Gronfa.
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa.
- Mynd i'r afael ag ymholiadau gan aelodau a buddiolwyr eraill ac ymateb i unrhyw anghydfodau gwirioneddol neu bosibl sy'n ymwneud â'r Gronfa.
- Rheoli rhwymedigaethau'r Gronfa, gan gynnwys ymrwymo i drefniadau yswiriant a dewis buddsoddiadau'r Gronfa.
- Mewn cysylltiad â gwerthu, uno neu ad-drefnu neu drosglwyddo busnes corfforaethol gan y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa a'u cwmnïau grŵp.
- I nodi a ydych chi'n gymwys i gael diogelu tanategol. Am ragor o wybodaeth, gweler tudalen Aelodau LGPS: <https://www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/>.

Sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw

O bryd i'w gilydd byddwn yn rhannu eich data personol gyda chynghorwyr a darparwyr gwasanaeth fel y gallant ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau, ein hawliau a'n disgresiwn mewn perthynas â'r Gronfa. Bydd rhai o'r sefydliadau hynny yn syml yn prosesu eich data personol ar ein rhan ac yn unol â'n cyfarwyddiadau; cyfeirir atynt fel proseswyr. Bydd sefydliadau eraill yn gyfrifol i chi'n uniongyrchol am eu defnydd o ddata personol yr ydym yn ei rannu â nhw; cyfeirir atynt fel rheolwyr. Efallai y bydd yn rhaid i'r rheolwyr o dan y ddeddfwriaeth diogelu data roi gwybodaeth ychwanegol i chi am y data personol sydd ganddynt amdanoch chi a sut a pham maent yn prosesu'r data hwnnw. Gellir darparu rhagor o wybodaeth i chi mewn hysbysiad ar wahân neu gellir ei chael gan y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth yn uniongyrchol, er enghraifft trwy eu gwefannau.

Pryd bynnag y bydd un o'n cynghorwyr neu ddarparwyr gwasanaeth yn gweithredu fel rheolydd ar y cyd â ni mewn perthynas â'ch data personol, oherwydd ein bod yn penderfynu ar y cyd ar y dibenion a'r dulliau o'i brosesu, byddwn yn cytuno â nhw sut y bydd pob un ohonom yn bodloni ein rhwymedigaethau priodol a chyfunol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Os hoffech ragor o

wybodaeth am sut mae trefniant o'r fath yn gweithio, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Gall y sefydliadau y gallwn rannu eich data personol gyda nhw gynnwys y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth canlynol:

Proseswyr	Rheolwyr
- Gweinyddwr – (Cyngor Sir Powys ar hyn o bryd) - Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol – ar hyn o bryd Prudential, Standard Life & Utmost Life & Pensions - Cyfrifwyr – (ar hyn o bryd Cyngor Sir Powys) - Biwro olrhain ar gyfer sgrinio marwolaethau a lleoli aelodau a buddiolwyr – (Atmos, Crown Agents ar hyn o bryd) - Darparwr taliadau tramor i drosglwyddo taliadau i aelodau'r Gronfa a buddiolwyr sydd â chyfrifon nad ydynt yn y DU – (Convera ar hyn o bryd) - Darparwr(au) gwasanaeth integredig, sy'n hwyluso cysylltiadau â dangosfwrdd pensiynau – (Heywood ar hyn o bryd) - Cwmnïau argraffu – (Xerox HybridMail ar hyn o bryd, 'CFH DocMail Ltd') - Darparwr meddalwedd pensiynau – (ar hyn o bryd Heywood) - Cyflenwyr TG, gwasanaethau cynhyrchu a dosbarthu dogfennau	- Ymgynghorydd actiwaraidd – (AON ar hyn o bryd) - Ymgynghorydd buddsoddi – (AON ar hyn o bryd) - Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol – (ar hyn o bryd Prudential, Standard Life & Utmost Life & Pensions) - Cynghorydd cyfreithiol – (ar hyn o bryd Burges Salmon) - Actiwari y Gronfa – (ar hyn o bryd AON) - Archwilydd statudol – (Archwilio Cymru ar hyn o bryd) - Archwilydd allanol – (Audit Wales ar hyn o bryd) - Archwilydd mewnol – (Gwasanaethau Archwilio Mewnol SWAP ar hyn o bryd) - Cronfa ddata Yswiriant Gwladol LGPS – (Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog) - Gweinyddu awdurdodau cronfeydd LGPS eraill (neu eu hasiantau, fel gweinyddwyr trydydd parti) lle rydych wedi bod yn aelod o gronfa LGPS arall ac mae angen y wybodaeth i benderfynu ar y budd-daliadau y mae gennych chi neu'ch dibynyddion hawl iddynt - Gweinyddwyr cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill lle rydych wedi bod yn aelod o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall ac mae angen y wybodaeth i benderfynu a ydych yn gymwys i gael diogelu sylfaenol - Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Adran Actiwari'r Llywodraeth - Swyddfa'r Cabinet – at ddibenion y Fenter Twyll Genedlaethol - CThem - Llysoedd Cymru a Lloegr – at ddibenion prosesu gorchmynion rhannu pensiwn ar ysgariad - Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Pan fyddwn yn gwneud buddsoddiadau'r Gronfa neu'n ceisio darparu buddion i aelodau a buddiolwyr mewn ffyrdd eraill, megis drwy ddefnyddio yswiriant, yna efallai y bydd angen i ni rannu data personol gyda darparwyr buddsoddiadau, yswirwyr a gweithredwyr cynlluniau pensiwn eraill.

O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn darparu rhywfaint o'ch data i'ch cyflogwr a'u his-gwmnïau perthnasol (a darpar brynwyr eu busnesau) a chynghorwyr at ddibenion galluogi'r endidau hynny i ddeall rhwymedigaethau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ynghylch y Gronfa. Byddai'ch cyflogwr yn gyffredinol yn rheolydd y data personol a rennir ag ef yn yr amgylchiadau hynny. Er enghraifft, pan

fo'ch cyflogaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i drefniant allanol, gall yr Awdurdod Gweinyddu ddarparu gwybodaeth am eich buddion pensiwn i'ch cyflogwr ac i gynigwyr posibl ar gyfer y contract hwnnw pan fydd yn dod i ben neu pan gaiff ei adnewyddu.

Mae'r fframwaith dangosfwrdd pensiynau yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu data personol o fewn ecosystem y dangosfyrddau. Pan fydd aelod yn chwilio am wybodaeth am ei bensiynau ar-lein drwy ddangosfwrdd pensiynau, rydym yn derbyn data personol penodol at ddibenion nodi cyfatebiaeth â phensiwn yr aelod yn y Gronfa. Yna mae angen i ni ddarparu gwybodaeth bensiynau penodol i'r ecosystem dangosfyrddau fel y gellir ei arddangos trwy'r dangosfwrdd perthnasol.

Pan ofynnir amdano neu os ydym o'r farn ei fod yn rhesymol angenrheidiol, efallai y byddwn hefyd yn darparu eich data i gyrff llywodraethol a sefydliadau datrys anghydfodau a gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys y rhai a restrir uchod, y Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Ombwdsmon Pensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yna gallant ddefnyddio'r data i gyflawni eu swyddogaethau.

Caiff y sefydliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau uchod ddefnyddio'r data personol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Gronfa yn ogystal ag ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol (megis cyfrifo costau budd-daliadau cyfartalog disgwylidig a chyfraddau marwolaeth) a dibenion cynllunio, gweinyddu busnes a rheoleiddio. Efallai y byddant hefyd yn trosglwyddo'r data i drydydd partïon eraill (er enghraifft, gall yswirwyr basio data personol i gwmnïau yswiriant eraill at ddibenion cael ailyswariant), i'r graddau y maent yn ystyried bod y wybodaeth yn rhesymol angenrheidiol at ddiben cyfreithlon.

Nid ydym yn defnyddio eich data personol at ddibenion marchnata ac ni fyddwn yn rhannu'r data hwn ag unrhyw un at ddibenion marchnata i chi neu unrhyw fuddiolwr.

Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r DU

Mewn rhai achosion, efallai y bydd derbynwyr eich data personol y tu allan i'r DU. Felly, gall eich data personol gael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU i awdurdodaeth nad yw'n cynnig lefel ddigonol o diogelu fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU.

Os bydd hyn yn digwydd, rhaid gweithredu mesurau diogelu ychwanegol gyda'r bwriad o ddiogelu eich data personol yn unol â'r cyfreithiau perthnasol. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod os hoffech ragor o wybodaeth am y mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd.

Pa mor hir rydyn ni'n cadw eich data personol

Byddwn yn cadw eich data personol cyhyd ag y bydd ei angen er mwyn cyflawni'r diben(ion) y cafodd ei gasglu/ eu casglu ar eu cyfer ac am gymaint o amser wedyn ag y credwn y gallai fod angen i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion y gallwn eu derbyn am ein gweinyddiaeth o'r Gronfa, oni bai ein bod yn dewis cadw eich data am gyfnod hirach i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd eich data personol yn cael ei gadw am y rhan fwyaf o:

- y cyfnod pan fydd gennych chi (neu unrhyw fuddiolwr sy'n derbyn budd-daliadau ar ôl eich marwolaeth) hawl i fudd-daliadau gan y Gronfa ac am gyfnod o 60 mlynedd ar ôl i'r budd-daliadau hynny roi'r gorau i gael eu talu. Am yr un rheswm, efallai y bydd angen cadw eich data personol hefyd pan fyddwch wedi derbyn trosglwyddiad, neu ad-daliad, o'r Gronfa mewn perthynas â'ch hawl i fudd-daliadau; neu
- 100 mlynedd o ddyddiad geni aelod; neu
- 100 mlynedd o ddyddiad geni unrhyw fuddiolwr a dderbyniodd fudd-daliadau o'r Gronfa ar ôl marwolaeth yr aelod.

Pan fyddwch yn ceisio cael mynediad at eich gwybodaeth bensiynau drwy ddangosfwrdd pensiynau, mae'r rheoliadau dangosfwrdd pensiynau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw gwahanol

fathau o wybodaeth (rhai ohonynt yn cynnwys data personol) am gyfnodau penodol, fel y disgrifir yn fanylach yma: <https://www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk/connection/consumer-protection/data-protection-impact-assessment>.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i gael mynediad at a chael copi o'r data personol y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ei gadw amdanoch chi ac i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gywiro neu gwblhau eich data personol os oes unrhyw wallau neu os yw'n hen ddyddiad neu'n anghyflawn. Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, efallai y bydd gennych hawl hefyd i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gyfyngu ar brosesu eich data personol, neu drosglwyddo neu (mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, megis lle nad oes angen eich data personol mwyach at y diben y mae'n cael ei brosesu ar ei gyfer) dileu eich data personol. Dylech nodi nad oes rhaid i ni ddileu eich data personol os oes angen i ni ei brosesu at ddibenion gweinyddu'r Gronfa.

Mewn rhai amgylchiadau mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol; er enghraifft, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol sy'n seiliedig ar fuddiant y cyhoedd neu fuddiannau cyfreithlon a nodir yn yr adran uchod o dan y pennawd "*Y darn technegol*", neu lle mae prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk neu drwy ei llinell gymorth ffôn (0303 123 1113).

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cwynion neu bryderon ynghylch prosesu eich data personol, cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa neu ein Swyddog Diogelu Data fel y nodir isod.

Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu weithgareddau prosesu'r Awdurdod Gweinyddu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y gallwch ei wneud drwy'r wefan uchod neu eu llinell gymorth ffôn.

Fel yr eglurwyd yn yr adran uchod dan y pennawd "*Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol*", un o'r rhesymau pam rydym yn casglu ac yn cadw eich data personol yw er mwyn gweinyddu buddion eich Cronfa. Os nad ydych yn darparu'r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdano, neu'n gofyn i'r data personol sydd gennym eisoes gael ei ddileu neu fod prosesu'r data personol yn cael ei gyfyngu, gall hyn effeithio ar ein gallu i weinyddu eich budd-daliadau, gan gynnwys talu budd-daliadau o'r Gronfa. Mewn rhai achosion, gallai olygu nad yw'r Awdurdod Gweinyddu yn gallu talu eich pensiwn neu fod yn rhaid iddo roi'r gorau i'ch pensiwn (os yw eisoes yn cael ei dalu).

Diweddariadau

Efallai y byddwn yn diweddaru'r hysbysiad hwn o bryd i'w gilydd. Pan fyddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod i aelodau a buddiolwyr am y newidiadau a'r dyddiad y mae'r newidiadau yn dod i rym.

Cysylltu â ni

Cysylltwch â gweinyddwr y Gronfa, Cyngor Sir Powys, am ragor o wybodaeth yn pensions@powys.gov.uk.

Adran Pensiynau
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Spa Road
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Rheolydd Data

Powys County Council
County Hall
Spa Road
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

Swyddog Diogelu Data

I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych gŵyn am sut rydym wedi ymdrin â'ch data personol, gellir cysylltu â swyddog diogelu data'r cyngor drwy e-bost yn information.compliance@powys.gov.uk a dros y ffôn yn 01597826400.